

SWYDDI CYNGOR
RHONDDA CYNON TAF
COUNCIL JOBS

RHONDDA CYNON TAF







Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Candidate Information Pack

DISGRIFIAD SWYDD

Swyddog Hyfforddiant a Chydymffurfiaeth Iechyd a Diogelwch

Byddwch chi'n gweithio yn rhan o garfan fach o weithwyr proffesiynol yn rhan o'r Garfan Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, gan ddarparu cyngor, arweiniad a chymorth ar draws y Cyngor. Bydd deiliad y swydd yn gweithio gydag ystod amrywiol o feysydd gwasanaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar hyfforddiant iechyd a diogelwch, cymhwysedd, monitro gweithredol a chydymffurfiaeth weithredol. Bydd hyn yn cynnwys cynorthwyo â datblygiad ac adolygiad asesiadau risg, systemau gwaith diogel a gweithdrefnau gweithredu safonol; cynnal archwiliadau ac arolygiadau; cynorthwyo gydag ymchwiliadau i ddamweiniau a digwyddiadau; a datblygu a chyflwyno hyfforddiant iechyd a diogelwch priodol.

Cyfeirnod y Swydd:
Dyddiad y Disgrifiad Swydd: Tachwedd 2026
Fersiwn: v3

Gradd	10
Lleoliad	Tŷ Elái
Cyfadran	Adnoddau Dynol
Uwchadran	Adnoddau Dynol
Adran:	Cysylltiadau Gweithwyr
Carfan/Is-garfan	Y Garfan Iechyd a Diogelwch
Yn atebol i	Rheolwr Iechyd a Diogelwch
Swyddi sy'n atebol i'r swydd yma	
Oes angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?	Nac oes

Pam gweithio i Gyngor Rhondda Cynon Taf?

Cyngor Rhondda Cynon Taf yw un o'r awdurdodau lleol mwyaf yng Nghymru. Dyma ein delfryd ar gyfer Rhondda Cynon Taf: "Mae modd i bob person, cymuned a busnes dyfu a byw mewn Bwrdeistref Sirol iach, gwyrdd, diogel, bywiog a chynhwysol lle mae modd iddyn nhw gyflawni eu llawn botensial ym mhob agwedd ar eu bywydau a'u gwaith, nawr ac yn y dyfodol."

Os ydych chi'n gweithio i ni, mae eich gwaith yn cyfrannu at wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn ein cymunedau.
Rydyn ni wedi ymrwymo i greu amgylchedd gwaith cynhwysol sy'n rhoi boddhad, ac sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd a'n blaenoriaethau.
Rydyn ni'n darparu rhaglenni sefydlu, hyfforddi a datblygu rhagorol i'ch helpu i dyfu yn eich swydd a'ch gyrfa. Byddwch chi'n cael eich herio a'ch cefnogi trwy gyfleoedd newydd i feithrin sgiliau newydd a throsglwyddadwy wrth ichi wneud gwahaniaeth.

Lles a Chydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith
Darllenwch ein Strategaeth Lles y Gweithlu gynhwysfawr, sy'n cydnabod y nifer o elfennau sy'n dylanwadu ar lesiant cyffredinol. Rydyn ni'n cynnig ystod eang o fuddion a gwasanaethau cymorth i'ch helpu i ffynnu yn y gweithle.

Bydd modd i chi gael ystod eang o fuddion staff gan gynnwys Aelodaeth **Hamdden am Oes** am bris gostyngol, Cerdyn 'Vivup' i gael gostyngiadau ar gannoedd o gynhyrchion a gwasanaethau a chynllun **Beicio i'r Gwaith**.

Rydyn ni'n comisiynu **Rhaglen Cymorth i Weithwyr** sy'n gyfle i chi gael cymorth ynglŷn â lles 24/7 yn ogystal â chyfoeth o adnoddau ar-lein gan gynnwys llyfrau gwaith hunangymorth, podlediadau ac asesiadau iechyd.

Mae ein **cynllun pensiwn** yn cynnig buddion cystadleuol, gydag arbedion ariannol ychwanegol i'w cael gyda gostyngiadau ar gannoedd o gynhyrchion a thechnoleg a chynlluniau prynu ceir sy'n darparu ffyrdd ychwanegol o reoli cyllid personol, i gyd ar gael drwy'r wefan **buddion staff**. Mae cyfleoedd pellach i hybu lles ariannol drwy ddysgu mwy yng ngweithdai **Salary Finance**.

Yn ogystal â hynny, rydyn ni'n cefnogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith drwy bolisïau hyblyg sy'n addas i deuluoedd ynghyd â chynnig gwyliau blynyddol hael, sef 26 diwrnod (pro rata) yn cynyddu i 31 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth, ynghyd ag 8 gŵyl gyhoeddus a'r opsiwn i brynu gwyliau blynyddol ychwanegol (hyd at 10 diwrnod pro rata). Mae ein gweithle cynhwysol hefyd yn dathlu amrywiaeth gyda nifer o rwydweithiau staff gan gynnwys Rhwydwaith y Cynghreiriaid, Rhwydwaith Anabledd a Chynhalwyr, 'Perthyn' (rhwydwaith LHDTC+) a Sbotolau ar gyfer staff Du, Asiaidd, a staff sydd o grwpiau ethnig lleiafrifol.

Bwriwch olwg ar ein tudalennau gyrfaoedd i gael rhagor o wybodaeth am weithio i ni.

Diben y swydd:

Cynorthwyo â gwelliant parhaus hyfforddiant, cymhwysedd a threfniadau sicrwydd iechyd a diogelwch, gan ddarparu cyngor proffesiynol, canllawiau a chamau monitro gweithredol ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

Darparu cyngor, canllawiau a chymorth broffesiynol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch i reolwyr, gan eu helpu i sicrhau bod gweithwyr yn gweithredu'n ddiogel, mewn modd cymwys ac yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol, polisïau'r Cyngor, gweithdrefnau ac arferion da cydnabyddedig y diwydiant.

Bydd hyn yn cynnwys cynorthwyo â gwaith datblygu a monitro asesiadau risg addas a digonol, systemau gwaith diogel a gweithdrefnau gweithredu safonol; cynnal archwiliadau ac arolygiadau; cynorthwyo gydag ymchwiliadau i ddamweiniau a digwyddiadau; a datblygu a chyflwyno rhaglenni asesu cymhwysedd a hyfforddiant iechyd a diogelwch priodol.

Bydd deiliad y swydd yn gweithredu o fewn y Garfan Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, gan helpu i gynnal cysondeb â safonau a threfniadau iechyd a diogelwch corfforaethol. Bydd meysydd gwasanaeth unigol yn cadw perchnogaeth dros eu risgiau gweithredol, cyfrifoldebau rheoli a gofynion cydymffurfio sy'n benodol i'r gwasanaeth.

O'ch penodi i'r swydd, dyma'r hyn byddwch chi'n ei gyflawni:

1. **Darparu cyngor, canllawiau a chamau monitro gweithredol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch proffesiynol ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys cynorthwyo rheolwyr gydag anghenion hyfforddiant iechyd a diogelwch, asesiadau cymhwysedd, rheoli risg a sicrwydd gweithredol, wrth hyrwyddo diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.**

2. **Cynorthwyo rheolwyr i ddatblygu ac adolygu gweithdrefnau a threfniadau iechyd a diogelwch lleol cymesur sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth berthnasol, polisïau'r Cyngor, gweithdrefnau a safonau iechyd a diogelwch corfforaethol.**

3. **Datblygu, gweithredu a chynnal trefniadau monitro iechyd a diogelwch cymesur ar gyfer rheolwyr a goruchwylwyr, gan gynnwys arolygiadau, archwiliadau ac adolygiadau cydymffurfiaeth, er mwyn cynorthwyo â chydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol, polisïau'r Cyngor, gweithdrefnau ac arferion gwaith diogel.**

4. **Nodi anghenion hyfforddiant iechyd a diogelwch a chynnal cofnodion cywir o ofynion hyfforddiant, eu darpariaeth a'u cwblhau ar gyfer gweithwyr gweithredol perthnasol.**

O'ch penodi i'r swydd, dyma'r hyn byddwch chi'n ei gyflawni:

5. **Dadansoddi canfyddiadau archwiliadau, gwybodaeth am ddigwyddiadau a data am gyflawniad iechyd a diogelwch er mwyn nodi tueddiadau, problemau sy'n codi dro ar ôl tro a chyfleoedd i wella, a llunio adroddiadau cydymffurfio priodol, gwybodaeth am gyflawniad a diweddariadau rheoli.**

6. **Cynorthwyo rheolwyr gydag ymchwiliadau i ddamweiniau, digwyddiadau a digwyddiadau agos, gan helpu i nodi achosion uniongyrchol, sylfaenol a gwreiddiol ac argymell camau cywirol cymesur.**

7. **Cynnal cofnodion cywir, y mae modd eu harchwilio, sy'n ymwneud â hyfforddiant iechyd a diogelwch, asesiadau cymhwysedd, arolygiadau, archwiliadau a gweithgareddau sicrwydd perthnasol eraill.**

8. **Cynorthwyo ag arolygiadau gweithleoedd, archwiliadau mewnol ac ymweliadau neu adolygiadau rheoleiddio allanol sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth iechyd a diogelwch.**

9. **Cynorthwyo rheolwyr i ddatblygu safonau cymhwysedd cymesur a threfniadau asesu ar gyfer rolau gweithredol a rolau sy'n hanfodol i ddiogelwch.**

10. **Cynorthwyo prosiectau trawsnewid gwasanaethau a chyflwyno offer, prosesau neu arferion gweithredol newydd drwy helpu rheolwyr i nodi a rheoli goblygiadau iechyd a diogelwch perthnasol.**

11. **Meincnodi hyfforddiant, cymhwysedd a threfniadau sicrwydd iechyd a diogelwch yn erbyn deddfwriaeth berthnasol, safonau cydnabyddedig ac arfer da yn y diwydiant.**

12. **Cynorthwyo i fonitro iechyd a diogelwch yn y gweithle, hyfforddiant, cymhwysedd a chydymffurfiaeth â threfniadau iechyd a diogelwch perthnasol y Cyngor, a darparu cyngor ac argymhellion cymesur lle nodir diffygion.**

13. **Cynorthwyo rheolwyr i ddatblygu, adolygu a gweithredu asesiadau risg addas a digonol, systemau gwaith diogel, gweithdrefnau gweithredu safonol a threfniadau iechyd a diogelwch perthnasol eraill.**

14. **Datblygu a chyflwyno rhaglenni hyfforddi iechyd a diogelwch sy'n cyd-fynd ag anghenion hyfforddi sydd wedi'u nodi, risgiau gweithredol, deddfwriaeth berthnasol a pholisïau a threfniadau'r Cyngor.**

15. **Monitro gweithrediad ac effeithiolrwydd camau cywirol cytunedig sy'n deillio o arolygiadau, archwiliadau, ymchwiliadau a gweithgareddau sicrwydd eraill.**

16. **Cysylltu â rheolwyr, gweithwyr, cynrychiolwyr undebau llafur, lechyd Galwedigaethol a rhanddeiliaid mewnol ac allanol perthnasol eraill mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch.**

O'ch penodi i'r swydd, dyma'r hyn byddwch chi'n ei gyflawni:

17. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn unol â diben, a chyfrifoldebau'r swydd.

Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill sy'n gymesur â'r swydd ar gais Cyfarwyddwr y Gwasanaeth neu yng ngoleuni cyfle cytûn i ddatblygu'n broffesiynol.

Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch y Cyngor ac ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau iechyd a diogelwch perthnasol yn unol â threfniadau lleol.

Cefnogi'r Cyngor wrth iddo fynd i'r afael â'r Newid yn yr Hinsawdd ac i gyrraedd ei dargedau Lleihau Carbon ar draws yr holl wasanaethau y mae'n eu darparu a hefyd o ran y nwyddau a'r gwasanaethau hynny y mae'n eu prynu neu eu comisiynu gan sefydliadau eraill.

Mae gyda phob aelod o staff ran werthfawr a hanfodol i'w chwarae o ran cadw pobl yn ddiogel. Mae cyfrifoldeb ar unrhyw berson sydd â phryderon ynghylch diogelwch plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, NEU ymddygiad cydweithiwr tuag at blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, i roi gwybod am hyn ar unwaith. Dylid gwneud hyn trwy Reolwr Llinell yr unigolyn, yr Arweinydd Diogelu Dynodedig neu drwy gysylltu â Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf.

BYDD CYNNWYS Y DDOGFEN YMA YN CAEL EI ADOLYGU YN ACHLYSUROL GAN YMGYNGHORI Â DEILIAD Y SWYDD. MAE'N BOSIBL Y BYDD DISGRIFIADAU SWYDDI YN NEWID YN SGIL HYNNY.

MANYLEB PERSON

Mae'r fanyleb yma'n nodi gwybodaeth a/neu gymwysterau, profiad a chymwyseddau personol a fyddai'n ddelfrydol ar gyfer y swydd benodol yma.

Mae'r adrannau Gwybodaeth/Cymwysterau a Phrofiad yn disgrifio'r gallu technegol sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud y swydd yma yn llwyddiannus.

Mae'r adran **Cymwyseddau** yn disgrifio'r mathau o sgiliau (heb fod yn dechnegol), y galluoedd, a'r nodweddion personol, a fyddai gan y person sy'n ddelfrydol ar gyfer y swydd benodol yma. Mae'r cymwyseddau yn disgrifio sut byddai'r person hwnnw, yn ddelfrydol, yn gweithio gyda phobl eraill a sut y byddai'n ymgymryd â'i gyfrifoldebau.

Mae'r adran **Amodau Arbennig a Gofynion Proffesiynol** yn disgrifio unrhyw briodoleddau eraill sy'n briodol i'r amgylchiadau penodol a fo'n ymwneud â'r swydd yma.

Gwybodaeth / Cymwysterau:

Hanfodol	Dymunol
Cymhwyster Lefel 3 cydnabyddedig mewn Iechyd Galwedigaethol a Diogelwch, megis Tystysgrif Gyffredinol Genedlaethol NEBOSH mewn Iechyd Galwedigaethol a Diogelwch neu gymhwyster cyfatebol.	Diploma Cenedlaethol Lefel 6 NEBOSH ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Rheoli Iechyd Galwedigaethol a Diogelwch, Diploma Lefel 6 IOSH mewn Diogelwch Galwedigaethol ac Iechyd, neu gymhwyster iechyd galwedigaethol a diogelwch Lefel 6 cyfatebol.
Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus ym maes iechyd galwedigaethol a diogelwch.	Cymhwyster hyfforddi cydnabyddedig, fel y Dyfarniad Lefel 3 mewn Addysg a Hyfforddiant, cymhwyster Hyfforddi'r Hyfforddwr neu gymhwyster cyfatebol.
Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol, trefniadau'r Cyngor, safonau cydnabyddedig ac arfer da yn y diwydiant.	Aelodaeth dechnegol o IOSH (TechIOSH), aelod ardystiedig o IOSH (CertIOSH) neu gymhwysedd i gyflawni'r radd aelodaeth berthnasol.

Profiad:

Hanfodol	Dymunol
Profiad o ddarparu cyngor, arweiniad a chymorth ymarferol ym maes iechyd a diogelwch o fewn amgylchedd gwaith gweithredol, rheng flaen neu amgylchedd gwaith cymhleth tebyg.	Profiad o weithio ym maes rheoli gwastraff, glanhau strydoedd, priffyrdd, trafnidiaeth neu wasanaeth awdurdod lleol rheng flaen arall.

Profiad o ddatblygu, adolygu neu gynorthwyo â gweithrediad asesiadau risg, systemau gwaith diogel a gweithdrefnau iechyd a diogelwch gweithredol.	Profiad o gydweithio â sefydliadau partner ac amrywiaeth o adrannau o fewn awdurdod lleol neu sefydliad mawr a chymhleth arall i gynorthwyo â gwella gwasanaethau.
Profiad o nodi anghenion hyfforddi a datblygu neu gyflwyno rhaglenni hyfforddi iechyd a diogelwch, deunyddiau dysgu ac asesiadau cymhwysedd.	Gwybodaeth neu brofiad o ofynion cydymffurfio â'r CPC, y tacograff neu ofynion cydymffurfio trafnidiaeth perthnasol eraill.
Profiad o gynnal arolygiadau gweithle, archwiliadau neu weithgareddau monitro iechyd a diogelwch eraill.	Profiad o ddatblygu fframweithiau cymhwysedd neu safonau asesu ar gyfer swyddi gweithredol.
Profiad o gynnal neu gynorthwyo ag ymchwiliadau i ddamweiniau, digwyddiadau a methiannau agos a nodi camau cywirol cymesur.	Profiad o gynorthwyo newid sefydliadol, gwella gwasanaethau neu gyflwyno arferion gweithredol newydd.
Profiad o ddadansoddi a gwerthuso canfyddiadau archwiliadau, gwybodaeth am ddigwyddiadau, gwybodaeth reoli neu ddata cyflawniad arall am iechyd a diogelwch, a llunio adroddiadau ac argymhellion clir.	
Profiad o gydweithio â rheolwyr a gweithwyr i weithredu gwelliannau iechyd a diogelwch cymesur.	

Lefelau Sgiliau Cymraeg:

Hanfodol	Dymunol
Cymraeg Lefel 1 ☒ *Bydd raid i bob gweithiwr gymryd rhan mewn sesiwn cyflwyniad i'r Gymraeg i gyrraedd y lefel yma* Cymraeg Lefel 2 ☐ Cymraeg Lefel 3 ☐ Cymraeg Lefel 3-5 ☐ Cymraeg Lefel 4 ☐ Cymraeg Lefel 5 ☐	Cymraeg Lefel 2 ☐ Cymraeg Lefel 3 ☐ Cymraeg Lefel 3-5 ☒ Cymraeg Lefel 4 ☐ Cymraeg Lefel 5 ☐
I gael manylion ynglŷn â'r lefelau, edrychwch ar y Canllaw Sgiliau Iaith Gymraeg ar-lein: www.rctcbc.gov.uk/SgiliauCymraeg	

Y sgiliau byddwch chi'n eu defnyddio yn y gweithle:

Fframwaith	
Meysydd Cymhwysedd	**Ymddygiadau a Gwerthoedd Cymhwysedd**
Gweithio'n Rhan o Bartneriaeth ac Mewn Carfan	Meithrin cysylltiadau parhaol, cadarnhaol, ac adeiladol gydag ystod o bobl. Bod yn rhagweithiol a chadarnhaol ynglŷn â rhoi cymorth, cyngor, arweiniad a rhannu arferion gorau â chydweithwyr
Cyfathrebu'n Effeithiol	Cyfathrebu â'r gynulleidfa mewn ffordd addas a "throsi" iaith dechnegol. Paratoi gwybodaeth ysgrifenedig ragorol a dealladwy.
Arbenigedd a Datblygiad Proffesiynol	Dangos arferion rhagorol a gwybodaeth helaeth am y maes proffesiynol perthnasol. Mynd ati'n rhagweithiol i gadw ar ben y newidiadau diweddaraf i ddeddfwriaeth, polisïau, gweithdrefnau ac arfer gorau yn y Cyngor ac mewn cyrff eraill.
Rheoli Adnoddau	Rhagweld problemau a gweithredu er mwyn lleihau'r posibilrwydd o bethau'n mynd o chwith. Cynllunio ymhell ymlaen llaw i gwrdd â therfynau amser.
Sicrhau Canlyniadau	Pennu amcanion a thargedau ar sail strategaethau a chynlluniau busnes y garfan, yr Uwchadran a'r Cyngor. Paratoi cynlluniau gweithredu effeithiol sy'n nodi'r camau perthnasol sydd eu hangen i gyflawni prosiect
Canolbwyntio ar Ddefnyddwyr y Gwasanaeth	Mynd ati i ddeall anghenion y cwsmeriaid mewnol a defnyddwyr y gwasanaeth. Defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd proffesiynol i wella safonau'r gwasanaeth ar gyfer cwsmeriaid.
Creu ac Ymateb i Newid	Ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i newidiadau mewnol ac allanol. Cyfrannu syniadau fydd yn gwella trefnau rheoli systemau, prosesau neu arferion.
Bod yn Atebol.	Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'i swyddogaeth yng nghyd-destun ehangach y Cyngor. Cymryd cyfrifoldeb llawn am gyflawni tasgau.

Amodau Arbennig a Gofynion Proffesiynol

Y modd i deithio ledled y Fwrdeistref Sirol er mwyn ymateb i ofynion y gwasanaeth.

Y modd i ymateb yn rhesymol i ofynion y gwasanaeth y tu allan i oriau gwaith arferol, yn ôl y gofyn.

Y gallu i gynnal archwiliadau ac ymweliadau gweithleoedd o fewn ystod o amgylcheddau gweithredol.

Ymrwymiad i gynnal datblygiad proffesiynol parhaus a chadw gwybodaeth am ddeddfwriaeth, canllawiau ac arfer da cydnabyddedig perthnasol ym maes iechyd a diogelwch yn gyfredol.